SUL CYFFREDIN 7

**1 SAMUEL 17:[1A, 4-11, 19-23] 32-49; SALM 9:9-20;
2 CORINTHIAID 6:1-13; MARC 4:35-41**

● **Gweddi agoriadol**
Down i'th bresenoldeb,
Dad, Mab ac Ysbryd,
Drindod Sanctaidd.

Down i addoli
yr un a'n gwnaeth,
yr un sy'n ein gwaredu,
yr un sy'n ein cynnal.

Drindod sanctaidd,
Dad, Mab ac Ysbryd,
down i'th bresenoldeb.

● **Moliant**
I'r rheini sy'n dy geisio. Arglwydd,
rwyt yn noddfa ddiogel,
yn amddiffynfa
pan fydd amgylchiadau
yn milwrio yn ein herbyn
a ninnau heb le arall i droi iddo.

I'r rheini sy'n dy geisio, Arglwydd,
ti yw gair y gwirionedd,
a'th Ysbryd
yn rhoi doethineb
pan brofir ffydd,
inni fedru tystiolaethu i'th enw.

I'r rheini sy'n dy geisio, Arglwydd,
ti yw ffynhonnell bywyd,
gan fod dy gariad,
fel dŵr bywiol,
yn arllwys i'n calonnau
a dod â ni at dy draed mewn moliant.

● **Cyffes**
Os bydd rhywbeth a ddywedwn neu a wnawn
yn achosi i un
o'th rai annwyl faglu,
os gweli'n dda, Arglwydd, maddau.
Weithiau methwn weld
y niwed posibl
y gall ein geiriau a'n gweithredoedd
achosi.

Rho i ni ddoethineb
a deall
ym mhob perthynas,
ac atgoffa ni,
cyn i ni weithredu neu siarad,
ein bod yn adeiladu muriau
yn dy deyrnas,
a gall cerrig frifo eraill.

● **Diolch**

Da yw gwybod
ar ddyddiau stormus
fod gwynt a thonnau
yn ufuddhau i'th air,
ac ynghanol ein picil
gellir dal i glywed
llais dy dangnefedd.